

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

### Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 41 & 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig:-

- **Terfynu Ysgol Babanod Glan y Môr, Ffordd Greenfield, Bae Colwyn Conwy, LL29 8ET a**
- **Terfynu Ysgol Iau Pendorlan, Ffordd Greenfield, Bae Colwyn, Conwy, LL29 8ET**
- **Sefydlu Ysgol Gynradd newydd ar y safleoedd presennol, Ffordd Greenfield, Bae Colwyn, Conwy, LL29 8ET**

Mae Ysgol Babanod Glan y Môr ac Ysgol Iau Pendorlan yn Ysgolion Cynradd Cymunedol Cyfrwng Saesneg a gynhelir yn bresennol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae Adroddiad ar yr Ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan godwyd y rhai a ymgynghorwyd â hwy, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar wefan Adran Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y Cyngor: [www.conwy.gov.uk/ardal1baecolwyn](http://www.conwy.gov.uk/ardal1baecolwyn)

Cynigir gweithredu'r cynigion ar 31ain Awst 2015.

Ni fydd unrhyw newid i ddalgylch cyfredol Ysgol Babanod Glan y Môr ac Ysgol Iau Pendorlan. Ni fydd bellach angen i ddisgyblion wneud cais i drosglwyddo i'r ysgol iau a byddant yn cychwyn yn y derbyn hyd at flwyddyn 6 cyn parhau gyda'u haddysg Uwchradd.

Bydd cludiant ond yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant Cartref i'r Ysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn **8fed Chwefror 2015**.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at Richard Ellis Owen, Pennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg), Gwasanaethau Addysg, Adeiladau'r Llywodraeth, Ffordd Dinerth, Bae Colwyn LL28 4UL neu e-bost [School.Modernisation@conwy.gov.uk](mailto:School.Modernisation@conwy.gov.uk)



**Richard Ellis Owen**  
**Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg**  
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Dyddiad – 12fed Ionawr 2015

### **Nodyn Esboniadol**

(Nid yw'r nodyn esboniadol hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond caiff ei gynnis fel eglurhad)

1. Mae Cyngor yn cynnig cyfuno Ysgol Babanod Glan y Môr ac Ysgol Iau Pendorlan. Bydd hyn yn golygu cau'r ddwy ysgol ar 31ain Awst 2015 a'r ysgol gyfunedig newydd yn agor 1 Medi 2015 ar y safleoedd presennol.
2. Nodwyd y rhesymau dros y cynnig hwn yn y Ddogfen Ymgynghori a ddosbarthwyd 8fed Hydref 2014.
3. Mae Gwasanaethau Addysg Conwy wedi adolygu nifer y disgyblion, cydraddoleb mynediad at adnoddau ar gyfer disgyblion, safonau addysgol ac addasrwydd i bwrpas adeiladau ysgol presennol ar draws yr Awdurdod.
4. Mae copi o Bolisi Derbyniadau a Cludiant Cartref i'r Ysgol Cyngor Bwrdesitref Sirol Conwy ar gael ar wefan y Cyngor.
5. Mae'r rhybudd hwn yn nodi cychwyn cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod o **12fed Ionawr hyd 8fed Chwefror 2015** ac yn nodi'r cyfeiriad ble gellir anfon gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig.
6. Mae'r holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r cynnig hwn ar [www.conwy.gov.uk/ardal1baecolwyn](http://www.conwy.gov.uk/ardal1baecolwyn)

## Conwy County Borough Council

### School Standards and Organisation (Wales) Act 2013

Notice is hereby given in accordance with Section 41 & 43 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and the School Organisation Code that Conwy County Borough Council, having consulted such persons as required, propose to:-

- **Ysgol Babanod Glan y Môr, Greenfield Road, Colwyn Bay Conwy, LL29 8ET &**
- **Ysgol Iau Pendorlan, Greenfield Road, Colwyn Bay, Conwy, LL29 8ET**
- **Establish a new Primary School on their current sites, Greenfield Road, Colwyn Bay, Conwy, LL29 8ET**

Both Ysgol Babanod Glan y Môr & Ysgol Iau Pendorlan are English Medium Community Primary Schools currently maintained by Conwy County Borough Council.

Conwy County Borough Council undertook a period of consultation before deciding to publish this proposal. A Consultation Report containing a summary of the issues raised by consultees, the proposers responses and the views of Estyn is available on the Conwy County Borough Council, Education Services website: [www.conwy.gov.uk/colwynbayarea1](http://www.conwy.gov.uk/colwynbayarea1)

It is proposed to implement the proposals on 31st August 2015.

There will be no change to the current catchment area for Ysgol Babanod Glan y Môr and Ysgol Iau Pendorlan. Pupils will no longer be required to apply to transfer from infants to juniors and will enter the school at Reception through to Year 6 before continuing with their Secondary education.

Transport will only be provided in accordance with Conwy County Borough Council's Home to School Transport Policy.

Within a period of 28 days after the date of publication of this proposal, that is to say by **8th February 2015** objections to the proposal can be made.

Objections should be sent in writing to Richard Ellis Owen, Head of Education (Chief Education Officer), Education Department, Government Buildings, Dinerth Road, Colwyn Bay LL28 4UL or by email to [School.Modernisation@conwy.gov.uk](mailto:School.Modernisation@conwy.gov.uk)



**Richard Ellis Owen**  
**Head of Education Services**  
**Conwy County Borough Council**

Date – 12<sup>th</sup> January 2015

### **Explanatory Note**

(The Explanatory Note does not form part of the Notice but is offered by way of explanation)

1. The Council is proposing to amalgamate Ysgol Babanod Glan y Môr and Ysgol Iau Pendorlan. This will result in the closure of both schools as of the 31<sup>st</sup> of August 2015 and the new amalgamated school opening on the 1<sup>st</sup> September 2015 on their current sites.
2. The reasons for this proposal were set out in the Consultation Document published 8<sup>th</sup> October 2014.
3. Conwy County Borough Council has been reviewing current pupil numbers, equality of funding for pupils and the fitness for purpose of current school buildings across the Authority.
4. A copy of the Conwy County Borough Council's School Admissions Policy and Home to School Transport Policy are available on the County's website.
5. This notice marks the start of a 28 day Objection Period from **12<sup>th</sup> January to 8<sup>th</sup> February 2015** and sets out the address to which objections in writing may be submitted.
6. All documentation relating to this proposal can be found at [www.conwy.gov.uk/colwynbayarea1](http://www.conwy.gov.uk/colwynbayarea1)